academi

datblygu • hyfforddi • meithrin

Cartref i holl waith Datblygu, Hyfforddi a Meithrin Mudiad Meithrin.

Prif amcanion academi yw adnabod talent, datblygu dealltwriaeth a chynyddu gallu.

academi@meithrin.cymru

www.meithrin.cymru

Cartref i holl waith Dysgu, Datblygu a Hyfforddi Mudiad Meithrin

Ym mis Awst 2015, lansiodd Mudiad Meithrin gynllun cyffrous newydd, sef academi. Bwriad y cynllun yw darparu cyfleoedd dysgu, datblygu a hyfforddi i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o gymuned Mudiad Meithrin.

Sut alla i fod yn rhan o'r cynllun?

- Bod yn rhan o **gymuned ar-lein** i annog gweithwyr a gwirfoddolwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd
- **Dysgu o ble bynnag a sut bynnag** y dymunir: hyfforddiant wyneb yn wyneb, ar-lein, ar ddyfeisiau symudol e.e. IPad ffonau symudol
- Derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb yng **nghylch meithrin** academi. Lleoliad ymarferol, pwrpasol ac addas i ddysgu am waith cylchoedd meithrin
- Mynnu copi o'r **prosbectws blynyddol** gyfloedd Dysgu, Datblygu a Hyfforddi
- Dweud eich dweud mewn **Grwpiau Ffocws** gan gyfrannu at, ddatblygiad pellach y cynllun
- Cyfrannu at ddatblygu **talent y dyfodol** drwy gynllun prentisiaeth gan annog pobl ifanc i ddatblygu gyrfa yn y maes
- Sefydlu **cynllun partneriaid** er mwyn medru cynnig ystod eang o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sgiliau
- **Cydnabod a gwobrwyo** arferion o safon uchaf ymysg staff a gwirfoddolwyr

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Bydd yr academi yn mynd ar daith o amgylch Cymru yn y dyfodol agos er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r cyfleoedd y mae'r cynllyn cyffrous hwn yn eu cynnig.

Os am fwy o fanylion e-bostiwch academi@meithrin.cymru